# DYFFRYN GWY YSBRYDOLEDIG

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn ystyried sut y daeth Dyffryn Gwy yn atyniad i dwristiaid oherwydd ei harddwch. Maen nhw'n gwneud poster twristiaeth i ddangos yr hyn sy'n atyniadol am Ddyffryn Gwy, ar ôl ystyried yn gyntaf y meini prawf llwyddiant ar gyfer yr hyn sy'n gwneud poster twristiaeth da. Mae dysgwyr yn edrych ar sut y gallai pobl gael eu hysbrydoli gan yr awyr agored. Maen nhw'n gwneud fideo neu glip sain munud o hyd i annog plant ifanc a'u rhieni i chwarae yn yr awyr agored yn amlach.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dulliau o recordio a golygu clip fideo neu sain, e.e. ffôn clyfar, tabled, camera fideo, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# PAM MAI DYFFRYN GWY OEDD 'MAN GENI' TWRISTIAETH YM MHRYDAIN?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried sut y daeth Dyffryn Gwy yn atyniad i dwristiaid oherwydd ei harddwch, yn y dasg hon. Byddant yn gwneud poster twristiaeth i ddangos yr hyn sy'n atyniadol am Ddyffryn Gwy.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth a ddarparwyd am y Parchedig William Gilpin, sef teithiwr o'r 18fed ganrif a aeth ar daith mewn cwch i lawr yr Afon Gwy ym 1770.

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy wedi cynnal dathiad yn 2020 oherwydd bod 250 mlynedd wedi mynd heibio ers i William Gilpin fynd ar daith mewn cwch i lawr yr afon Gwy. Cynhyrchwyd taflen - The picturesque Wye tour (Saesneg yn unig).

Gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu'r daflen ac edrych ar y map ar ddechrau'r daflen. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa leoedd ydych chi wedi clywed amdanynt?
- Pa leoedd ydych chi wedi ymweld â nhw? Pam? Pryd?
- Beth wnaethoch chi yn y lleoedd y gwnaethoch chi ymweld â nhw?
- Pe byddech chi'n gwneud Taith Gwy, pa leoedd y byddech yn fwyaf awyddus i ymweld â nhw? Pam?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr sganio drwy'r daflen a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa leoedd hoffech chi gael gwybod mwy amdanyn nhw? Pam?
- Detholwch un o'r lleoedd er mwyn darganfod mwy amdano. Pam wnaethoch chi ddethol y lle hwn? Beth hoffech chi ei ddarganfod ynghylch y lle hwn?
- Darllenwch y wybodaeth sydd yn y daflen am y lle y gwnaethoch chi ei ddethol. Beth arall hoffech chi ei wybod?

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i ddod o hyd i'r lle maen nhw wedi'i ddethol ar y map Arolwg Ordnans (OS) a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor bell o'ch ysgol yw'r lle y gwnaethoch ei ddethol? Sut gallwch chi ddefnyddio'r offer mesur i weithio allan beth yw'r pellter?
- Sut allech chi deithio o'r ysgol i'r lle y gwnaethoch chi ei ddethol? Pa un yw'r ffordd orau o deithio yno? Pam?
- Beth fyddech chi'n ei weld pe byddech chi'n mynd i'r lle y gwnaethoch chi ei ddethol? Sut gallwch chi ddefnyddio'r map i'ch helpu chi? Nodwch ychydig o bethau y byddech chi'n gallu eu gweld.

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod William Gilpin wedi dechrau'r syniad o ymweld â lleoedd i ryfeddu at eu harddwch. Y dyddiau hyn, mae llawer o bobl yn ymweld â Dyffryn Gwy i wneud hynny. Fodd bynnag, mae twristiaid hefyd yn ymweld i roi cynnig ar weithgareddau, dysgu am yr hanes neu dreulio mwy o amser yn yr awyr agored.

Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i ddarganfod pam efallai y byddai twristiaid eisiau ymweld â Dyffryn Gwy. Yna, lluniwch fap meddwl i ddangos eu holl syniadau.

## Sgrîn 8

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am wneud poster i annog mwy o dwristiaid i ymweld â Dyffryn Gwy, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy yn union yw'r gynulleidfa ar gyfer eich poster?
- Beth sydd angen i chi ei gynnwys yn eich poster? Pam?
- Sut y gallwch chi sicrhau y bydd eich poster yn tynnu sylw eich cynulleidfa?

## Sgrîn 9

Dangoswch y poster i hybu twristiaeth, i'r dysgwyr, a gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ansoddeiriau allwch chi eu defnyddio i ddisgrifio'r poster?
- Sut mae'r poster yn gwneud defnydd o ddelweddau i ennyn eich diddordeb?
- Sut mae'r delweddau hyn yn defnyddio lliw yn effeithiol?
- Pa wybodaeth mae'r poster yn ei darparu? Pa mor ddefnyddiol yw hynny i dwristiaid? Pam?
- Beth fyddech chi'n ei ddarganfod pe byddech chi'n ymweld â'r fan hon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth fyddech chi'n ei ddweud yw rhinweddau arbennig y lle hwn? Pam?

## Sgriniau 10-11

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl beth sy'n gwneud poster da ar gyfer annog twristiaeth trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw nodweddion pwysig poster da ar gyfer annog twristiaeth? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr wneud rhestr o 10 nodwedd (meini prawf llwyddiant) ar gyfer yr hyn sy'n gwneud poster da i hybu twristiaeth, ar y sgrîn nesaf.

## Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i flaenoriaethu eu meini prawf llwyddiant trwy lusgo a gollwng y blychau gorffenedig o'r sgrîn flaenorol. Yna, dylai dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa feini prawf llwyddiant yw'r rhai pwysicaf? Pam?
- Pa feini prawf llwyddiant yw'r lleiaf pwysig? Pam?

Gofynnwch i'r dysgwyr fod yn barod i gyfiawnhau eu penderfyniadau.

## Sgrîn 13

Gofynnwch i'r dysgwyr greu eu poster gan ddefnyddio eu meini prawf llwyddiant (a'u map meddwl) a'i ddangos i'r dosbarth.

Gofynnwch i'r dosbarth roi adborth ar:

- Pa mor dda yr oedd y poster yn arddangos Dyffryn Gwy?
- Pa mor ddeniadol oedd eich poster iddyn nhw?
- A oedd y poster yn gwneud iddyn nhw fod eisiau ymweld â Dyffryn Gwy? Pam?

### Sgrîn 14

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried yr adborth gan y dosbarth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd yn dda am eich poster?
- Beth nad oedd yn dda am eich poster?
- Sut allech chi newid eich poster i wneud i eraill fod eisiau ymweld â Dyffryn Gwy?

TASG 2

## PAM MAE BOD YN YR AWYR AGORED YN YSBRYDOLEDIG?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n edrych ar sut y gallai pobl gael eu hysbrydoli gan yr awyr agored. Byddan nhw'n gwneud fideo neu glip sain un funud o hyd i annog plant ifanc a'u rhieni i chwarae yn yr awyr agored yn amlach.

### Sgrîn 3

Gosodwch y cyd-destun drwy ofyn i'r dysgwyr ddarllen y testun sydd ar y sgrîn.

### Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod llawer o bobl yn cael eu hysbrydoli gan yr awyr agored. Gwahoddwch nhw i edrych ar y ffotograffau a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae eich hoff leoedd? Pam mai'r rhain yw eich hoff leoedd?
- Beth sy'n eu gwneud yn arbennig?
- Pam maen nhw'n bwysig i chi?
- Pryd ydych chi'n meddwl am y lleoedd hyn? Pam?
- Beth allwch chi ei weld, ei glywed, ei arogli a'i deimlo yn eich hoff leoedd?

### Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr wrando ar y clip sain a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei glywed? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble gallai hyn fod? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut mae'r synau hyn yn gwneud i chi deimlo? Pam?

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried beth yw manteision ac anfanteision bod yn yr awyr agored, yn eu barn nhw. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol gyda phartner.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw manteision treulio amser yn yr awyr agored? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut mae bod yn yr awyr agored yn gwneud i chi deimlo? Pam?
- Beth allech chi ei ddysgu o fod yn yr awyr agored?
- Beth efallai yw anfanteision bod yn yr awyr agored? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 7

Hysbyswch y dysgwyr bod ymchwil yn 2024: By aged two girls are already playing outside less than boys (Saesneg yn unig) wedi canfod fod merched dwy flwydd oed neu hŷn yn chwarae llai yn yr awyr agored na bechgyn. Gofynnwch iddynt ystyried yr ymchwil a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ydych chi'n cytuno â'r ymchwil hwn? Pam? Pa dystiolaeth sydd gennych chi?
- Pam ydych chi'n meddwl y gallai'r canfyddiad ymchwil hwn effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol merched, wrth iddynt dyfu'n oedolion ifanc?
- Beth allech chi ei wneud i annog plant ifanc a'u rhieni i chwarae yn yr awyr agored yn amlach?

## Sgrîn 8

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n gwneud clip fideo neu glip sain un funud o hyd i annog chwarae yn yr awyr agored. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol a llunio map meddwl i ddangos eu syniadau, cyn gwneud eu penderfyniadau.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r negeseuon allweddol yr hoffech eu cyfleu? Pam?
- Sut y byddwch chi'n cyfleu pob neges?
- Ble byddwch chi'n recordio? Pam?
- Beth fyddwch chi'n ei gofnodi? Pam?
- Sut byddwch chi'n golygu eich recordiad?
- Pwy fydd yn gwneud y gwahanol swyddi yn y grŵp? Pam?

## Sgriniau 9-12

Gwahoddwch y dysgwyr i fynd allan i'r awyr agored i recordio eu clip fideo neu sain un funud o hyd, gan feddwl am eu penderfyniadau cynharach.

Gofynnwch iddynt rannu eu clip fideo neu sain gyda'r dosbarth, cymryd adborth a'i ddefnyddio i wella eu clip fideo, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy yw'r gynulleidfa ar gyfer eich recordiad?
- Ble allech chi ddefnyddio'r recordiad er mwyn cyrraedd at eich cynulleidfa?
- Ble mae'r lleoedd gorau? Pam?

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio eu recordiad i gyrraedd at gymaint o'u cynulleidfa â phosibl ac i fonitro'r adborth y maen nhw'n ei gael.

## Sgrîn 13

Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar sut y gwnaethon nhw eu recordiad trwy ddechrau ar waelod y triongl a meddwl am y ffyrdd roedden nhw'n gweithio.